

FFORWM ADDYSG GYMRAEG CASNEWYDD

CYFANSODDIAD A CHYLCH GORCHWYL



1. Cefndir

Mae'r Bil Safonau a Threfniadau Ysgolion (Cymru) 2012 y cyflwyno rhwymedigaeth statudol i awdurdodau lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a chyflwyno'r cynllun hwnnw i Lywodraeth Cymru. Diben y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yw fel a ganlyn:

- gwneud awdurdodau lleol yn atebol i Lywodraeth Cymru am gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg;
- Adlewyrchu nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg genedlaethol;
- Nodi'r sefyllfa bresennol, amlinellu gweithgareddau priodol a dangos gwelliant;
- dangos cynnydd clir dros 3 mlynedd ym mhob awdurdod lleol a phob ardal gonsortiw tuag at gyflawni nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn canolbwyntio'n bennaf ar y targedau a nodwyd yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, sef y targedau y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol gyflwyno adroddiad blynyddol arnynt i Lywodraeth Cymru, fel a ganlyn:

- mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio i ennill cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg
- mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Sicrhau bod gan fwy o ddysgwyr o bob oedran sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch
- sicrhau bod gwell darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu Fforwm Addysg Gymraeg (a elwir 'y Fforwm' o hyn ymlaen).

Ategir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gan y Grant Cymraeg mewn Addysg, a weinyddir gan Lywodraeth Cymru ac sydd ar wahân i'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion.

2. Swyddogaethau'r Fforwm

Bydd y Fforwm yn darparu dull ffurfiol o gyfathrebu rhwng Cyngor Dinas Casnewydd, ysgolion a gynhelir gan y Cyngor, a sefydliadau partner eraill sydd â buddiant yn addysg Gymraeg yn ardal Casnewydd ar y cyfryw faterion sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg fel y'u rhagnodwyd yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Casnewydd. Yn benodol, bydd y Fforwm yn gwneud y canlynol:

- Gweithredu fel grŵp ymgynghorol ar gyfer datblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a Grant y Gymraeg mewn Addysg sydd ynghlwm â hynny.
- Monitro'r broses o weithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

- Monitro'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a gweithio fel grŵp ymgynghorol ar gyfer datblygiadau'r dyfodol.
- Cyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru yn nodi'r cynnydd o ran gweithredu targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn erbyn yr amserlen gymeradwy.

3. Aelodaeth

Bydd Aelodaeth y Fforwm yn cynnwys yr aelodau 'craidd' canlynol a benodir gan Gyngor Dinas Casnewydd:

Swyddogion Cyngor Dinas Casnewydd

- Pennaeth Cynorthwyol Addysg (Cynhwysiant)
- Pennaeth Cynorthwyol Addysg (Cynllunio)
- Rheolwraig Polisi a Gwybodaeth Addysg
- Rheolwraig Busnes Blynyddoedd Cynnar
- Adfywio , Tai a Buddsoddiad

Cynrychiolwyr ysgolion:

- Un cynrychiolydd sy'n bennaeth ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg
- Un cynrychiolydd sy'n llywodraethwr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg
- Un cynrychiolydd o Ysgol Gyfun Gwynllyw
- Un cynrychiolydd sy'n bennaeth ysgol gynradd cyfrwng Saesneg
- Un cynrychiolydd o un o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg Casnewydd.

Sefydliadau partner:

- Mudiad Meithrin
- Rhieni dros addysg Gymraeg (RhAG)
- Urdd Gobaith Cymru
- Menter Iaith Casnewydd
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Arweinydd Systemau'r Gymraeg
- Coleg Gwent
- Prifysgol Casnewydd

4. Penodi Aelodau'r Fforwm

Caiff Aelodau Gwasanaeth Addysg Casnewydd eu penodi gan Bennaeth yr Adran Addysg.

Penodir cynrychiolwyr ysgolion ar sail enwebiadau a gafwyd gan grwpiau Penaethiaid a Llywodraethwyr.

Gwahoddir sefydliadau partner i enwebu cynrychiolydd addas.

5. Cyfnod gwasanaeth

Caiff pob aelod craidd ei penodi neu ei phenodi am y cyfnod 2014-17, yn unol ag amserlen y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Gellir ailbenodi swyddogion.

6. Terfynu Gwasanaeth Aelodau

Bydd aelodaeth aelodau'r fforwm yn dod i ben pan fyddant yn rhoi'r gorau i'r swydd a'i gwnaeth yn gymwys i gael eu penodi.

7. Cyfarfodydd y Fforwm

Bydd y Fforwm yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn, sef unwaith bob tymor academaidd. Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol drwy ymgynghori â'r Cadeirydd.

Rhoddir rhybudd ysgrifenedig o bum diwrnod neu fwy am gyfarfod y Fforwm i aelodau, ar wahân i achosion o gyfarfodydd brys.

Bydd y Rheolwraig Polisi a Gwybodaeth Addysg yn darparu swyddogaeth gynorthwyol i'r Fforwm, a bydd yn dosbarthu'r agenda a'r dogfennau sy'n berthnasol i'r cyfarfod i'r aelodau o leiaf saith diwrnod cyn cyfarfod y Fforwm.

8. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Y Cadeirydd fydd yn llywyddu cyfarfodydd y Fforwm. Bydd y Fforwm yn ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yng nghyfarfod cyntaf pob blwyddyn academaidd. Bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn gwasanaethu am gyfnod o un flwyddyn a gellir ei ail-ethol.

9. Is-Bwyllgorau

Gall y Fforwm sefydlu is-bwyllgorau fel y bo angen i ystyried materion penodol a bydd yn pennu aelodaeth, cylch gorchwyl a gweithdrefnau is-bwyllgorau o'r fath fel y bo'n briodol. Bydd y Fforwm yn ystyried gwaith y cyfryw is-bwyllgorau ac yn gwneud argymhellion fel y bo'n briodol.

10. Cyfrinachedd

Ar adegau, gellir rhoi gwybodaeth gyfrinachol i aelodau'r fforwm i wella'u dealltwriaeth o'r mater dan sylw. Rhaid i aelodau'r Fforwm gadw'r gyfryw wybodaeth yn gyfrinachol.